**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**8 Rhagfyr 2023**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (‘Deddf 2016’) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'n rhoi i Weinidogion Cymru ystod o bwerau i wneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth.

1.2 Mae *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023* ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017.

1.3 Diben Rheoliadau 2023 yw diwygio'r fframwaith rheoleiddio er mwyn cynnwys y *gwasanaeth preswyl ysgolion arbennig* sy'n cael ei ragnodi fel gwasanaeth rheoleiddiedig newydd o dan adran 2 o Ddeddf 2016.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae’r pwerau sy’n galluogi i’r rheoliadau diwygio drafft hyn gael eu gwneud wedi’u cynnwys yn adrannau 6, 11, a 187 o Ddeddf 2016.

3.2 Mae adrannau 6 ac 11 yn ymwneud â'r cais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig, a'r cais i amrywio cofrestriad presennol. Mae adran 187(1) yn pennu bod unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016 yn arferadwy drwy offeryn statudol.

*Cofrestru ac Amrywio Cofrestriad*

3.3 Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer cofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r adran hon yn nodi bod rhaid i ymgeisydd bennu'r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'n dymuno ei ddarparu, y man y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef a'r person a gaiff ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol. Mae'n cynnwys pwerau i wneud rheoliadau i ragnodi ffurf y cais i gofrestru a'r wybodaeth bellach sydd i'w darparu.

3.4 Mae adran 11 o Ddeddf 2016 yn nodi'r sefyllfaoedd pan fo rhaid i ddarparwr gwasanaeth wneud cais ar gyfer amrywio ei gofrestriad. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd darparwr yn dymuno gwneud y canlynol:

- darparu gwasanaeth rheoleiddiedig nad yw eisoes wedi ei gofrestru i'w ddarparu,

- darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man, o fan neu mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr,
- peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig,
- peidio â darparu gwasanaeth rheoleiddiedig mewn man, o fan neu mewn perthynas â man,
- sicrhau bod amod a osodir ar ei gofrestriad yn cael ei amrywio neu ei ddileu, neu
- ddynodi unigolyn cyfrifol gwahanol mewn cysylltiad â man neu y mae'n ofynnol iddo ddynodi unigolyn cyfrifol oherwydd nad oes unigolyn o'r fath wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man.

3.5 Mae adran 11 o Ddeddf 2016 yn nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer gwneud cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth. Mae'r adran hon yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ragnodi terfyn amser y mae rhaid cyflwyno cais i ddynodi unigolyn cyfrifol newydd ynddo, ac yn pennu bod rhaid i gais gynnwys gwybodaeth bellach a ragnodir a bod ar y ffurf ragnodedig.

3.6 Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ("yr Ymchwiliad") adroddiad yr ymchwiliad 'Yr ymchwiliad i ysgolion preswyl Cyfnod 1: Ysgolion cerdd, ysgolion arbennig preswyl - Cyfnod 2: Diogelu: ysgolion dydd ac ysgolion preswyl'. Bu'r Ymchwiliad yn ymchwilio i gwestiynau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion arbennig preswyl yng Nghymru a Lloegr. Rhoddodd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac AGC dystiolaeth i'r Ymchwiliad. Mae argymhellion yr Ymchwiliad yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol arbennig breswyl gael ei harolygu yn erbyn y safonau ansawdd a ddefnyddir i reoleiddio cartrefi gofal yng Nghymru.

4.2 Diben Rheoliadau 2023 yw diwygio'r rheoliadau o sylwedd sy'n ymwneud â chofrestru i gynnwys ysgolion arbennig preswyl. Nid yw 'ysgol arbennig breswyl' yn derm sydd wedi'i diffinio'n benodol yn y ddeddfwriaeth bresennol, ond fe'i defnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i wahaniaethu'r ysgolion hyn ac ysgol arbennig nad yw'n darparu llety. Bydd y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023 arfaethedig yn diffinio'r *gwasanaeth preswyl ysgolion arbennig* at ddibenion Deddf 2016 ac yn ei gynnwys yn y drefn reoleiddio, arolygu a gorfodi.

4.3 Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn nodi'r gofynion ar gyfer gwneud cais i gofrestru, a gwneud cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan yr ymgeisydd er mwyn cofrestru fel

darparwr gwasanaeth, yr wybodaeth sy'n ofynnol gan ddarparwr gwasanaeth er mwyn amrywio'r cofrestriad, ffurf y cais a'r terfyn amser y mae rhaid cyflwyno cais i amrywio ynddo pan na fo unigolyn cyfrifol dynodedig. Mewn ymateb i adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus, y bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddangos yn glir y berthynas waith rhwng y *gwasanaeth preswyl ysgolion arbennig* a'r ddarpariaeth addysg yn y datganiad o ddiben wrth gofrestru neu wneud cais i amrywio'r cofrestriad.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng 15 Mai 2023 a 6 Awst 2023 ar yr ystod o Reoliadau drafft sy'n ffurfio'r fframwaith rheoleiddio a'r canllawiau statudol cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Cafodd rhanddeiliaid allweddol wybod am yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr ysgolion arbennig preswyl presennol, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, AGC, Estyn, a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae’r adroddiad sy’n crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar gael yma.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (2023) ("Rheoliadau 2023").

## *6.Cofrestru ac Amrywio Cofrestriad*

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y risgiau a'r manteision. Yr opsiynau yw:

**6.1 Opsiwn un:** Gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig – diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 er mwyn bodloni adran 11(2) o Ddeddf 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais i amrywio cofrestriad darparwr mewn amgylchiadau pan nad oes unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â'r gwasanaeth rheoleiddiedig, fel y bo'n gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol o hyd i berson sy'n dymuno darparu *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* wneud cais i gofrestru i Weinidogion Cymru (sef AGC yn ymarferol) o dan adran 6(1)(a)-(c) o Ddeddf 2016 ac i ddarparu'r wybodaeth a bennir yng ngeiriau'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys pennu'r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'r person am ei ddarparu a'r mannau ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu, yn ogystal â dynodi unigolyn cyfrifol. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r rheoliadau diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol mewn cais i gofrestru neu i amrywio cofrestriad, nac i ddefnyddio'r ffurf ragnodedig ar wneud cais.

<u>6.1.1 Costau</u>

Bydd cost i Lywodraeth Cymru, i AGC yn benodol fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, o ehangu'r system gofrestru ar-lein i gynnwys *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* er mwyn prosesu'r cofrestriadau a'r amrywiadau i gofrestriadau sy'n ofynnol o dan yr opsiwn hwn. Amcangyfrifir mai'r gost untro o wneud hyn fydd £46,000 yn ystod 2023-24. Bydd angen i AGC ddatblygu'r fframwaith arolygu a'r canllawiau perthnasol, ac amcangyfrifir mai £4,600 fydd y costau staffio i ymgymryd â'r gwaith hwn yn yn 2023-24.

Mae pedair ysgol arbennig breswyl yng Nghymru ar hyn o bryd. Caiff pob un ohonynt ei darparu gan awdurdodau lleol, sydd eisoes wedi eu cofrestru fel darparwyr gwasanaethau. Bydd darparwyr gwasanaethau presennol yn gwneud cais i amrywio cofrestriad er mwyn ychwanegu'r gwasanaeth newydd i'w cofrestriad.

Amcangyfrifir y bydd yn cymryd 33 o oriau i staff AGC brosesu, asesu a chymeradwyo cais syml a chyflawn i gofrestru gwasanaeth newydd. Ar y sail hon, amcangyfrifir mai £1,200 y gwasanaeth, sef cyfanswm o £4,800, fydd y gost i AGC o gofrestru darparwr gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd y gost hon

yn is ar gyfer ceisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau presennol i amrywio cofrestriad drwy ychwanegu gwasanaeth newydd.

Bydd cost o ran amser i ymgeiswyr o gwblhau'r broses gofrestru neu amrywio cofrestriad sy'n ofynnol o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu union gost yr opsiwn hwn i ddarparwyr gwasanaeth newydd a phresennol, gan y bydd yn amrywio gan ddibynnu ar gapasiti'r darparwr gwasanaeth yn ogystal â'r arferion a'r prosesau sefydliadol sydd ar waith ganddo ar hyn o bryd. Dim ond unwaith y bydd gofyn i berson sydd am gofrestru *gwasanaeth preswyl ysgol arbenni*g rheoleiddiedig wneud hynny, ac felly ni fydd unrhyw gost gylchol.

Bydd ychwanegu'r pedair ysgol arbennig preswyl sydd eisoes yn bodoli fel *gwasanaethau preswyl ysgol arbennig* yn cynyddu'r gwaith monitro ac arolygu a gynhelir gan AGC. Y gost flynyddol amcangyfrifedig ar sail ffigurau 2023-24 yw £15,000, sy'n gyfwerth â chost arolygydd 0.25 ychwanegol. Cost gylchol fydd hon.

<u>6.1.2 Risgiau</u>

Mae nifer o risgiau wedi cael eu nodi o dan yr opsiwn hwn. Bydd gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig, gan beidio â phennu'r wybodaeth ychwanegol a'r ddogfennaeth sydd i'w cynnwys mewn cais i gofrestru, neu i amrywio cofrestriad presennol, yn arwain at anghysondeb rhwng gwasanaethau rheoleiddiedig sydd eisoes yn bodoli a *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*.

Bydd hyn yn golygu na fydd modd i AGC fanteisio ar rychwant llawn yr wybodaeth sy'n ofynnol ganddi er mwyn bodloni ei hun o ran addasrwydd y gwasanaeth, y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol dynodedig. Ni fydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno datganiad o ddiben fel rhan o'r broses gofrestru. Mae'r datganiad o ddiben yn rhan annatod o'r system rheoleiddio ac yn sail i'r prosesau cofrestru, arolygu a gorfodi. Y datganiad o ddiben yw'r elfen sydd wrth wraidd y safonau ansawdd a ddefnyddir i reoleiddio cartrefi gofal. Mae'n nodi sut y bydd y gwasanaeth yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Ni fydd yr opsiwn hwn yn ymateb yn effeithiol i argymhelliad yr Ymchwiliad gan na fydd yn sicrhau bod *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill, gan gynnwys cartrefi gofal, yn cael eu trin yn gyfartal wrth gofrestru. Mae'n bosibl y bydd canlyniadau anfwriadol ar gyfer y gwaith parhaus o reoleiddio gwasanaethau ac ansawdd gwasanaethau'n barhaus, ac ar gyfer y canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Gall hyn arwain at oblygiadau ar gyfer enw da Llywodraeth Cymru.

At hynny, heb ei gwneud yn ofynnol i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig* gwblhau ffurflen benodol i gofrestru neu i amrywio cofrestriad, mae'r broses yn debygol o gymryd mwy o amser o lawer, gan na fydd pobl yn gwybod pa lefel o wybodaeth y dylid ei rhoi. Mae hyn yn debygol o arwain at ddarparu gwybodaeth annigonol ac anghyson, a gallai effeithio ar y penderfyniad i roi

neu i wrthod cofrestriad fel a bennir yn adran 7 o Ddeddf 2016. Bydd hyn yn anoddach i'w ddefnyddio ac yn cymryd mwy o amser, i ymgeiswyr ac i AGC.

6.1.3 Manteision

Ni nodwyd unrhyw fanteision sylweddol mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

**6.2 Opsiwn dau:** Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 fel y byddant yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig.* Bydd hyn yn golygu y bydd y gofynion o ran gwybodaeth ychwanegol a dogfennaeth a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau presennol yn ofynnol ar gyfer ceisiadau i gofrestru *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* neu i ychwanegu *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* i gofrestriad presennol. Bydd Atodlen 2 o'r rheoliadau presennol yn datgan y bydd angen yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y datganiad diben hefyd o dan yr opsiwn hwn. Dogfen ysgrifenedig yw'r datganiad o ddiben, sy'n cynnwys nodau ac amcanion y gwasanaeth a'r ffordd y bydd y darparwr yn bodloni'r nodau hynny ac yn diwallu anghenion y bobl y mae'n gofalu amdanynt. Mae'n hanfodol i'r system rheoleiddio bresennol ac yn sail i'r prosesau cofrestru, arolygu a gorfodi.

Mae'r gofynion yn y rheoliadau yn darparu gwybodaeth allweddol i helpu AGC i wneud penderfyniad cadarn ynghylch addasrwydd y gwasanaeth, yr ymgeisydd a'r unigolyn cyfrifol dynodedig i ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig. O dan yr opsiwn hwn bydd y gofynion o ran gwybodaeth, dogfennaeth a datganiad o ddiben ar gyfer *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn gyson â'r gofynion ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig eraill. Mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad, bydd Atodlen 2 yn cael ei diwygio i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r trefniadau cydweithio rhwng y *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* a'r lleoliad addysg.

Mae ffurf y cais i gofrestru gwasanaeth neu i amrywio cofrestriad wedi ei rhagnodi yn y rheoliadau presennol ac mae ar gael ar-lein drwy wefan Llywodraeth Cymru (AGC). Bydd y rheoliadau diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sicrhau bod *gwasanaethau preswyl ysgolion arben*nig yn dilyn yr un broses.

6.2.1 Costau

Mae'r costau i Lywodraeth Cymru, ac yn benodol i AGC, yr un fath ag opsiwn un. Yn opsiwn dau, bydd gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu / diwygio datganiad o ddiben. Dylai'r wybodaeth fod ar gael yn rhwydd, ac amcangyfrifir na fydd angen amser sylweddol i ysgrifennu/diwygio'r datganiad gan fod pob un yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol sydd eisoes wedi'u cofrestru fel darparwyr gwasanaethau. Ystyrir mai cost weinyddol weddol fach fydd y gost.

6.2.2 Risgiau

O dan yr opsiwn hwn mae risg fach y gallai'r broses gofrestru neu'r broses amrywio cofrestriad gymryd mwy o amser nag a ragwelwyd o ganlyniad i ddarparwyr yn methu â bodloni'r gofynion o ran gwybodaeth, dogfennaeth a

datganiad o ddiben. Caiff hyn ei liniaru ar gyfer darparwyr presennol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym drwy gyfeirio'r darparwyr at y templed datganiad o ddiben a'r canllawiau cofrestru sydd ar gael ar wefan AGC, ac at y cyngor sydd ar gael gan dîm cofrestru AGC.

6.2.3 Manteision

Mae'r gofynion yn y Rheoliadau yn rhan o broses gofrestru sydd eisoes ar waith sydd wedi cael ei threialu a'i harbrofi'n llwyddiannus ers i'r system ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016 gael ei gweithredu.

Mae'r opsiwn hwn yn darparu eglurder a sicrwydd i ddarparwyr ac i AGC. Bydd yn nodi'r gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth i ddarparwyr. Bydd yn galluogi AGC i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch addasrwydd y gwasanaeth, y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol dynodedig.

Mae'r opsiwn hwn yn creu cysylltiad uniongyrchol rhwng y datganiad o ddiben a'r gofynion mewn rheoliadau o dan adran 27 o Ddeddf 2016 sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch a llywodraethiant gwasanaethau. Bydd y datganiad diben yn sicrhau bod darparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu ar sail gyfatebol â gwasanaethau rheoledig eraill, gan gynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, yn unol ag argymhelliad yr Ymchwiliad.

Mae'r opsiwn hwn yn ymateb i argymhelliad yr Ymchwiliad drwy sicrhau bod y gofynion cofrestru a roddir ar ddarparwyr *gwasanaethau preswyl ysgolion arbenni*g a darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig eraill, gan gynnwys cartrefi gofal, yn gyfartal. Bydd yr opsiwn o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy sicrhau bod system cofrestru gwasanaethau ar waith sydd yr un mor gadarn ar gyfer yr holl wasanaethau rheoleiddiedig.

**6.3 Casgliad**

Ar ôl dadansoddi costau, risgiau a manteision pob opsiwn, yr opsiwn a ffefrir yw **Opsiwn 2 - Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 fel y byddant yn gymwys i *wasanaethau preswyl ysgolion arbennig***.

## 7. Asesu'r gystadleuaeth

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%? | Oes |

| | |
|---|---|
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 20%? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o o leiaf 50% o'r farchnad? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau'r Rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill? | Na fyddant |
| **C5**: A yw'r Rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid y nifer o gwmnïau neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r Rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r Rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r Rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Dim ond pedair ysgol arbennig preswyl sydd yng Nghymru ar hyn o bryd a fydd yn cofrestru fel *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*, ac at ddibenion y prawf hidlo mae hyn yn golygu mai cyfran dau gwmni o'r farchnad yw 50%. Felly, yn ein barn ni, nid oes angen cynnal asesiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn am na fyddant yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth nac yn effeithio'n sylweddol ar y busnes na'r trydydd sector.

**8. Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd AGC yn monitro'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau hyn ar ôl eu dyddiad dod i rym sef 31 Rhagfyr 2023.